Cyflwynodd Iesu ddameg arall iddynt: “Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i ddyn a heuodd had da yn ei faes.”
(Mathew 13:24)

Mae hon yn ddameg hynod o werthfawr a phwysig i Eglwys Iesu Grist. Mae’n ein dysgu na fydd yr Eglwys fyth yn berffaith ar y ddaear. Mae’n ein dysgu i fod yn amyneddgar ac i adael y barnu terfynol i’r Arglwydd ei hun.

Yr heuwr a’r maes

Yn ei esboniad o’r ddameg i’r disgyblion mae Iesu’n dweud mai Ef ei hun yw’r heuwr. Er ei fod yn Fab y Dyn, mae’n ddigon gostyngedig i’w ddisgrifio’i hun fel heuwr. Dyma ddywedir am Fab y Dyn yn llyfr Daniel: **“Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau’r nef; a daeth at yr Hen Ddihenydd a chael ei gyflwyno iddo. Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i’r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu.”** (7: 13-14).

Dywed Iesu mai’r byd yw’r maes, sef teyrnas Dduw yn y byd. Mae hyn yn dangos bod Iesu’n disgwyl i’w Eglwys ledaenu trwy’r holl fyd, ac i gynnwys pobl o bob llwyth a gwlad ac iaith a chenedl.

Mae rhai yn deall ‘y byd’ i olygu’r byd cyfan ac nid y deyrnas yn y byd. Dyw hynny ddim yn gwneud cystal synnwyr i mi, gan fod Iesu’n dweud y bydd yr angylion **“yn casglu allan *o’i deyrnas ef* bopeth sy’n peri tramgwydd”.** Felly, mae teyrnas Dduw yn y byd, neu Eglwys Dduw yn y byd, yn mynd i gynnwys had da a had drwg.

Mae gan yr heuwr weision hefyd. Dyma weinidogion ac arweinwyr yr Eglwys sydd yn cynorthwyo gyda’r hau a’r tyfiant. Mae’n gwbl glir, serch hynny, mai nid y nhw yw’r barnwyr terfynol, ond y prif heuwr – sef Crist.

Yr ŷd a’r efrau

Credinwyr go iawn yw’r had da. Dyma’r rhai sydd yn edifarhau o’r galon am eu pechod gerbron Duw, ac yn estyn o’u calon at Grist mewn ffydd. Dyma’r rhai sy’n caru’r Arglwydd o’r galon ac mewn ufudd-dod parod. Dyma’r rhai sydd â Chyfraith Duw ar lech eu calon. Dyma’r rhai sydd wedi eu haileni trwy waith yr Ysbryd Glân.

Gelwir yr efrau yn blant yr Un drwg. Dyma adlais o eiriau Iesu wrth siarad ag Iddewon oedd yn tybio’u bod yn blant Abraham ac yn blant Duw: **“Plant ydych chwi i’ch tad, y diafol, ac yr ydych â’ch bryd ar gyflawni**

dymuniadau eich tad. Llofrydd oedd ef o'r cychwyn" (Ioan 8:44). Dyma ddisgrifiad o ragrithwyr i'n sobri. Fel mae'r efrau yn debyg i'r ŷd heblaw am y ffrwyth bwytadwy, mae'r rhagrithwryr yn debyg i Gristnogion, ond does dim ffrwyth ysbrydol. Yn wir, yn lle ffrwyth y mae gwenwyn marwol.

Dywed Iesu ddau beth amdanynt yn arbennig. Mae'n nhw'n:

1. Peri tramgwydd

Mae'r had drwg yn rhwystr i'r had da. Mae'r rhagrithwyr yn rhwystr mawr i Gristnogion. Gallant fwrw amheuaeth ar Air Duw; bwrw dŵr oer ar sêl, brwdfrydedd a ffydd y saint; maen nhw hefyd yn peri tramgwydd i bobl y tu allan i'r Eglwys sydd yn gallu gweld trwy eu rhagrith a chael eu troi oddi wrth y Ffydd.

2. Gwneud anghyfraith

Os mai nodwedd y gwir Gristion yw cariad ac ufudd-dod i Dduw, mae'r rhagrithiwr yn wahanol, gydag ufudd-dod arwynebol, allanol, heb ddefosiwn cynnes yn y galon at yr Arglwydd. Does dim pleser yn yr Arglwydd Iesu Grist, ei groes a'i ewyllys.

Y cynhaeaf

Fe ddaw'r cynhaeaf yn Nydd y Farn ar ddiwedd y byd. Bydd yr angylion yn gwneud y gwaith didoli oherwydd bydd y gweision daearol yn rhan o'r gwenith a'r efrau.

Y Tân

Teflir yr efrau i'r ffwrnais danllyd. Dyma fyddai'n digwydd i'r efrau, wrth gwrs. Mae Iesu'n defnyddio darlun y tân a'r rhincian dannedd i gyfleu poen uffern sawl gwaith. Mae'n amlwg y bydd y rhagrithwyr mewn poen tragwyddol, arteithiol. Mae hyn yn cyd-fynd ag adnodau yn llyfr y Datguddiad sydd yn sôn am ddiwedd y diafol a'i blant: **"a chaiff ei boenydio mewn tân a brwmstan gerbron angylion sanctaidd a cherbron yr Oen. Bydd mwg eu poenedigaeth yn codi byth bythoedd, ac ni bydd gorffwys na dydd na nos i'r rhai sy'n addoli'r bwystfil a'i ddelw"** (14:10-11).

Teyrnas y Tad

Dywed Iesu y bydd y cyfiawn yn disgleirio fel yr haul. Byddant wedi cyrraedd y gogoniant bryd hynny, ac yn adlewyrchu gogoniant Duw ei hun. Unwaith eto, ceir adlais o lyfr Daniel: **"Disgleiria'r deallus fel y ffurfafen, a'r rhai sydd wedi troi llawer at gyfiawnder, byddant fel y sêr yn oesoesoedd"** (12.3).

Holed pawb ei hun!